

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Diwygio'r Drefn Treth Cyngor - Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Treth Gyngor Decach: cam 2
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid
Dyddiad y cyfarfod:	20 Chwefror 2024

1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ddiwygio Treth Cyngor yng Nghymru, a gyflwynir yn yr Atodiad.

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD:

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiwygion Treth Cyngor yng Nghymru, yn bennaf ar pa mor bell dylid cynnal diwygiad, a pha mor gyflym dylid gwneud hyn. Gofynnir i'r Cabinet roi ei sêl bendith i'r ymateb ddrafft oherwydd y sgil effeithiau posibl all y newidiadau arfaethedig eu cael ar drigolion Gwynedd a chyllideb y Cyngor.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

3.2 Cyhoeddwyd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar 1 Rhagfyr 2021. Mae'r cytundeb yn amlinellu sut byddai'r Llywodraeth a Phlaid Cymru yn cydweithio dros y tair blynedd dilynol ar bolisiau lle mae diddordeb cyffredin.

3.3 Un o'r ymrwymadau yn y cytundeb yw diwygio'r dreth gyngor, sy'n cael ei ddisgrifio ynddo fel un o'r mathau lleiaf teg o drethu – un sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru.

3.4 Mae'r Cytundeb Cydweithio yn nodi'r canlynol (yn y rhaglen bolisi lawn):

9. Diwygio'r dreth gyngor

Mae cyllid llywodraeth leol yn faes arall y mae'n hen bryd ei ddiwygio. Mae'r dreth gyngor yn un o'r mathau lleiaf teg o drethu ac yn un sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru, gan waethygu anghydraddoldeb daearyddol sydd wedi bodoli ers tro.

Bydd Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd i benderfynu ar sut i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn gwneud y system yn un decach a mwy blaengar.

3.5 Yn sgil y Cytundeb Cydweithio, mae rhaglen lywodraethu 2021 i 2026 Llywodraeth Cymru yn nodi:

Byddwn yn:

Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig.

3.6 Cyn y Cytundeb Cyflawni, yn ystod tymor y Senedd 2016-2021, aeth Llywodraeth Cymru ati i greu rhaglen ymchwil gyda chymorth y Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol wedi ei arwain gan arbenigwyr, a oedd yn cynnwys economegwyr, ystadegwyr, arbenigwyr trethi a budd-daliadau, sefydliadau sy'n ymwneud â chydraddoldebau ac ymarferwyr awdurdodau lleol.

3.7 Cyhoeddwyd canlyniadau'r gwaith ymchwil, "Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru", yn Chwefror 2021. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys ystyried mathau gwahanol o drethiant lleol i ariannu llywodraeth leol, gan gynnwys Treth Gwerth Tir, Trethi Lleol yn seiliedig ar Incwm neu Ddiwygio'r Dreth Gyngor.

[Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#)

3.8 Ar ôl ystyried yr holl waith ymchwil, penderfynodd Llywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolig i ddilyn y trywydd o ddiwygio'r system bresennol yn hytrach na chyflwyno trefn dreth gwbl newydd.

3.9 Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ("cam 1") yn y maes yn ystod 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn chwilio am farn ar y canlynol:

- Ailbriso eiddo, creu bandiau a chyfraddau treth newydd
- Sefydlu cylchoedd ailbriso treigl
- Sut y caiff estyniadau/gwelliannau i eiddo eu hystyried
- Hawliau apelio trethdalwyr, gwella tryloywder a rhannu rhagor o ddata.

3.10 Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo, "*Wrth ail-lunio'r system, o ran y dewisiadau rydym yn eu gwneud am fandiau treth a chyfraddau treth, ni fyddem yn ceisio cynyddu'r cyfanswm sy'n cael ei godi'n gyffredinol drwy drethi gan dalwyr y Dreth Gyngor o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei godi ar hyn o bryd, er y byddai rhai trethdalwyr yn gweld newidiadau.*"

4 Y CYNIGION PRESENNOL

4.1 Ers 1993, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi ailbriso eiddo domestig ar gyfer y dreth gyngor fel bod biliau yn seiliedig ar werthoedd eiddo yn 2003. Daeth yr ailbrisiad hwn yn weithredol o 2005 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddiweddarau prisiadau eiddo yn rheolaidd yn y dyfodol.

4.2 Mae'r ymgynghoriad presennol ("cam 2") yn gwneud cynigion penodol ar gyfer diwygio mewn nifer o feysydd a brofwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol o ran rhai o'r categorïau disgowntiau ac eithriadau. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad i'w cael yn yr Atodiad.

4.3 Mae tua 1.5 miliwn o anheddau domestig yng Nghymru yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor. Ar hyn o bryd mae pob eiddo yn cael ei roi mewn un o naw band treth, A i I, ar sail gwerthoedd eiddo ar 1 Ebrill 2003. Y rheswm am hyn yw, y tro diwethaf i'r Dreth Gyngor gael ei diweddarau yng Nghymru, i'r newidiadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2005. Fel rhan o'r newidiadau hynny, ychwanegodd Llywodraeth Cymru fand treth newydd (Band I) ar gyfer yr eiddo uchaf ei werth. Mae'r Dreth Gyngor yn Lloegr a'r Alban yn dal i fod yn seiliedig ar werthoedd eiddo yn 1991 ac wyth band treth.

4.4 Fel rhan o'r gwaith ers yr ymgynghoriad cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Asiantaeth y Swyddfa Briso gynnal ymarfer ailbriso eiddo. Yn ôl y Llywodraeth, "*mae'r Asiantaeth yn paratoi gwerthoedd cyfredol ar gyfer pob un o'r 1.5 miliwn o anheddau yng Nghymru drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf sy'n cael ei hachredu'n rhyngwladol gan arbenigwyr yn y diwydiant.*"

Mae tri dewis yn cael eu cynnig:

4.5 Opsiwn 1 – ail-brisio yn unig (h.y. diwygio ar raddfa fach)

Newid ar raddfa fach fyddai hwn, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gwerthoedd eiddo yn gyfredol. Drwy'r dull hwn, byddai'r system sydd ar waith yn barod yn cael ei chadw'r un fath i raddau helaeth:

- ailbrisio eiddo er mwyn ei roi mewn fersiwn fwy modern o'r 9 band presennol (cadw'r un canran o eiddo ym mhob band fel ag y mae ar hyn o bryd), ac yn diweddar trothwyon y bandiau i greu system gyfoes sy'n adlewyrchu gwerthoedd cyfredol eiddo, ond
- yn cadw'r 9 band a'r cyfraddau treth a godir ar gyfer pob band sydd gennym ar hyn o bryd.

4.6 Opsiwn 2 – newid maint gymharol y Bandiau (diwygio cymedrol)

Diwygiad cymedrol fyddai hwn i fynd i'r afael â natur anghyfredol ac anraddoledig y system bresennol. Drwy'r dull hwn byddai:

- strwythur 9 band yn cael ei gadw ac yn ei ddiweddar drwy gynnwys gwerthoedd eiddo cyfredol (fel Opsiwn 1), ond hefyd
- yn newid y cyfraddau treth ar gyfer pob band fel y byddai biliau aelwydydd mewn eiddo band is yn gostwng, a biliau aelwydydd mewn eiddo yn y bandiau uchaf yn codi

4.7 Opsiwn 3 – mwy o fandiau (diwygio ehangach)

Drwy'r trydydd dull, byddai'r system yn fwy graddoledig. Byddai'r dull yma yn:

- cynyddu nifer y bandiau o 9 i 12
- ychwanegu 3 band newydd, 1 ar y gwaelod a 2 ar y brig
- ail-lunio'r 12 band newydd fel bod maint pob band yn weddol gyson ar draws y strwythur cyfan
- newid y cyfraddau treth a godir ar bob band, gyda llawer llai yn cael ei dalu gan y rhai yn y bandiau isaf a mwy yn cael ei dalu gan y rhai yn y bandiau uchaf

5. AMSERLEN

5.1 Yn ogystal ag ymgynghori ar y dulliau yma, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar gyflymder unrhyw newid:

- yr amserlen gyflymaf: diwygio ar raddfa fach, gymedrol neu ehangach erbyn 1 Ebrill 2025
- diwygio arafach: diwygio ar raddfa fach, gymedrol neu ehangach, gan ddechrau yn 2028
- diwygio fesul cam: diwygio ar raddfa fach neu gymedrol yn 2025, gan symud at ddiwygio ehangach yn ystod tymor y Senedd nesaf.


5.2 Byddai'n rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisió gynnal ymarferiad i ailbrisió eiddo. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob eiddo yn cael ei ailbrisió ar ddyddiad prisió cyffredin (y Dyddiad Prisió Rhagflaenol). Byddai'r dyddiad hwn yn gymwys i bob eiddo, tan yr ymarfer ailbrisió nesaf.

5.3 Yn ôl y gyfraith, rhaid cyhoeddi rhestr brisió ddrafft o fandiau newydd ar gyfer pob eiddo ar 1 Medi, 7 mis cyn yr 1 Ebrill canlynol yn y flwyddyn ariannol pan fyddai system Dreth Gyngor newydd yn cael effaith. Hynny ydi, os bydd rhestr brisió newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025 bydd rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Brisió gyhoeddi'r rhestr brisió ddrafft ar 1 Medi eleni – ymhen ychydig dros 6 mis.

6. YR EFFAITH AR WYNEDD

6.1 Ar gyfartaledd, mae pris eiddo yng Nghymru wedi cynyddu oddeutu 150% rhwng 2003 a 2022. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd ar draws Cymru wedi bod yn gyson, fel y gwelir yn y graff isod o adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS):

Figure 2. Change in estimated average property value by LA, Q1 2003 onwards



Source: Authors' calculations using HM Land Registry (2022).

6.2 Fel gwelir uchod, Gwynedd sydd wedi gweld y cynnydd 7fed uchaf trwy Gymru yn ystod y cyfnod, ac mae oddeutu 170%. Canlyniad hyn yw gall nifer uwch na'r cyfartalog symud i fyny o leiaf un band yng Ngwynedd nag mewn rhai ardaloedd eraill.

6.3 Ar hyn o bryd, mae dosbarthiad eiddo Gwynedd fesul band Treth Cyngor fel a ganlyn:

Band	Gwerthoedd eiddo ar 01/04/2003	Cyfradd dreth mewn cymhariaeth â band D	% yr eiddo (Gwynedd)	% yr eiddo (Cymru)
A	Hyd £44,000	6/9	14.83%	14.49%
B	£44,001 i £65,000	7/9	25.39%	20.77%
C	£65,001 i £91,000	8/9	20.31%	21.77%
D	£91,001 i £123,000	9/9	17.24%	16.29%
E	£123,001 i £162,000	11/9	13.32%	13.49%
F	£162,001 i £223,000	13/9	6.42%	8.22%
G	£223,001 i £324,000	15/9	2.02%	3.71%
H	£324,001 i £424,000	18/9	0.33%	0.88%
I	Uwchlaw £424,000	21/9	0.14%	0.38%
			100.00%	100.00%


6.4 Mae 40% o eiddo Gwynedd ym mand A neu B ar hyn o bryd, gyda bron i 78% mewn band D neu is.

6.5 Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi cynnal astudiaethau pellach, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd wedi cael ei dderbyn ganddynt gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, sydd yn dangos pa ganran o aelwydydd fyddai ym mhob band petai ail-brisio yn digwydd. Dyma eu casgliadau ar gyfer bandiau eiddo Gwynedd petai ail-brisio yn digwydd yn unol â'r hyn a nodir yn y ddogfen ymgynghorol:

Band	Presennol	Yn dilyn ail-brisio
A	14.83%	11.25%
B	25.39%	22.00%
C	20.31%	21.52%
D	17.24%	16.01%
E	13.32%	14.67%
F	6.42%	9.41%
G	2.02%	3.92%
H	0.33%	0.86%
I	0.14%	0.36%

6.6 Oherwydd y newidiadau ym mhrisiau tai o fewn Gwynedd ers yr ailbrisiad diwethaf, byddai nifer yr eiddo ym mand A neu B yn gostwng i 33%, a'r nifer mewn band D neu is yn gostwng i 70%.

6.7 Gellir gweld effaith hyn ar Gymru gyfan yn y darlun isod:



Dosbarthiad Presennol

Dosbarthiad Arfaethedig

6.8 Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn nodi sut byddai biliau Treth Cyngor y bandiau "newydd" o dan Opsiwn 2 yn cymharu gyda'r drefn bresennol, ond mae'r IFS wedi defnyddio'r enghraifft ganlynol:

Band	Cyfradd dreth mewn cymhariaeth â band D (presennol)	Enghraifft o fersiwn ddiwygiedig (IFS)
A	6/9	5/9
B	7/9	6/9
C	8/9	7.5/9
D	9/9	9/9
E	11/9	12/9
F	13/9	15/9
G	15/9	18/9
H	18/9	22/9
I	21/9	27/9

6.9 Hynny yw, byddai Band A i C yn talu llai nag ar hyn o bryd, ond bandiau E i I yn talu mwy, gyda'r cynnydd yn mynd yn raddol fwy (band E yn mynd o 11/9 i 12/9 o fand D, ond band I yn mynd o 21/9 i 27/9).

6.10 O ddefnyddio Opsiwn 3, sef mwy o fandiau, ychydig iawn o eiddo fyddai'n manteisio ar y band newydd ar y gwaelod, a dim ond 0.18% o'r eiddo yng Ngwynedd fyddai yn y bandiau uchel newydd, sef J a K.

Band	Presennol	Dull 3
A1		1.84%
A	14.83%	8.35%
B	25.39%	20.78%
C	20.31%	20.49%
D	17.24%	17.66%
E	13.32%	14.51%
F	6.42%	9.67%
G	2.02%	4.63%
H	0.33%	1.50%
I	0.14%	0.41%
J		0.12%
K		0.06%

6.11 Mae astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos yn eglur beth fyddai effaith ariannol y newidiadau ar aelwydydd Gwynedd. Ar ddyddiad y data a ddefnyddiwyd, roedd 61,507 aelwyd yng Ngwynedd:

Newid yn y bil	Nifer yr aelwydydd a effeithir		
	Dull 1	Dull 2	Dull 3
<-£1,000	68	35	23
-£1,000 i -£500	384	743	5,263
-£500 i -£250	2,989	8,144	13,535
-£250 i -£100	5,932	18,455	9,110
-£100 i -£50	0	433	0
-£50 i 0	29,188	7,574	4,379
£0 i £50	0	0	4,942
£50 i £100	0	4,624	3,562
£100 i £250	10,749	6,716	4,755
£250 i £500	8,158	3,731	6,901
£500 i £1,000	3,097	8,019	5,174
>£1,000	942	3,033	3,863
Cyfanswm aelwydydd	61,507	61,507	61,507


Ffynhonnell: IFS – *Assessing the Welsh Government's consultation on reforms to Council tax*

6.12 Mae'r tabl yma yn dangos byddai oddeutu 9,000 aelwyd yn talu dros £500 yn fwy o Dreth Cyngor dan ddull 3, gyda bron i 4,000 yn talu dros £1000 yn fwy. Fodd bynnag, dan Opsiwn 2 byddai dros 11,000 aelwyd yn talu dros £500 yn fwy a gellid gweld fod Opsiwn 3 yn well i drigolion Gwynedd na fyddai Opsiwn 2:

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3
Talu Llai	15%	45%	45%
Talu rhywbeth tebyg*	47%	12%	15%
Talu mwy	37%	42%	39%


*Llai na +/- £50

6.13 I roi'r gwahaniaeth mewn yn fwy amlwg, mae'r map isod yn dangos y newid mewn biliau cyfartalog ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru petai Opsiwn 1 yn cael ei fabwysiadu, gan gyflwyno ailbrisiad yn unig. Fel y gwelir, bydd Gwynedd yn mwy o gynnydd yn ei sylfaen drethiannol (h.y. nifer yr eiddo ar ôl eu trosi i fod yn cyfateb i Fand D) na mwy neu lai unrhyw sir arall yng Nghymru:



Map 1: Newid yn y Sylfaen Drethiannol ar sail ail brisio yn unig

6.14 Petai Opsiwn 3 yn cael ei gyflwyno, byddai Gwynedd yn parhau i weld cynnydd yn y band 10% i 20% yn ei sylfaen drethiannol, ond ni fyddai mor eithriadol, ac byddai dau awdurdod (Bro Morgannwg a Sir Fynwy) yn gweld hyd yn oed mwy o gynnydd.



Map 2: Newid yn y Sylfaen Drethiannol ar sail ail brisio a cyflwyno bandiau newydd (diwygio ehangach)

7. CASGLIAD

- 7.1 I grynhoi, felly, ymddengys bydd sylweddol mwy o drethdalwyr Gwynedd (rhwng dwywaith a phedair gwaith cymaint) yn colli nag a fyddai'n ennill o dan unrhyw un o'r diwygiadau a gynhigir. Er mai ar sail ddamcaniaethol mae'r ffigyrau yn yr astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal hyd yma, yn gyffredinol mae posibilrwydd cryf bydd tua 40% o bobl Gwynedd yn talu rhai cannoedd o bunnoedd yn fwy o drethi fel canlyniad i'r diwygiadau.
- 7.2 Dylid nodi hefyd fod unrhyw gynnydd ar y cyfan yn sylfaen drethiannol y Cyngor (h.y. nifer yr eiddo sy'n cyfateb i Fand D) yn golygu gostyngiad cyfatebol yn y grant a dderbynnir gan y Llywodraeth. Y ddadl gan y Llywodraeth wrth gwrs yw fod y Cyngor yn derbyn mwy o Dreth Cyngor felly nid oes angen cymaint o grant i gwrdd â'i anghenion gwario, ond casglu'r Dreth Cyngor yn mynd yn gynyddol heriol.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:

Awdur yr adroddiad.

ATEBION YMGYNGHORIAD DRAFFT

Cwestiwn 1

Ym mha fand Treth Gyngor rydych chi ar hyn o bryd? Dewiswch opsiwn. Mae'n bosibl y byddwch am edrych ar eich bil Treth Gyngor diweddaraf neu [gallwch gadarnhau eich band Treth Gyngor drwy chwilio yn ôl eich cyfeiriad neu'ch cod post.](#)

Dim yn berthnasol.

Cwestiwn 2

Yn ardal pa gyngor ydych chi'n byw?

Cyngor Gwynedd

Cwestiwn 3

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos 3 dull posibl o lunio system Treth Gyngor decach. Rydym am ofyn i chi am eich awydd i ddiwygio.

Ydych chi'n meddwl y dylem anelu at:

- Dull 1: diwygo bach
- Dull 2: diwygio cymedrol
- **Dull 3: diwygio ehangach ✓**
- arall (manylwch)

Sylwadau:

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gael system dreth tecach, ac o ystyried tri opsiwn sy'n cael ei gynnig credwn fod angen symud ymlaen i gael system sydd yn cwrdd â'r dyhead o leihau'r annhegwch cynhenid sydd yn y system dreth cyngor ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth gefndir sydd yn cael ei gynnig yn y ddogfen ymgynghorol yn awgrymu y byddai Dull 1 a Dull 2 yn effeithio'n negyddol ar bobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol yn anghymesur ac annheg.

Mae unrhyw un o'r tri dull a awgrymir am effeithio yn negyddol iawn ar bobl sydd wedi gweld cynnydd yng ngwerth eu cartrefi ond nid yw eu hincwm wedi cynyddu'n gyfrannol i hyn. Mae gwir perygl na fydd pobl mewn rhai ardaloedd gwledig yn gallu fforddio talu'r dreth ac y byddant yn cael eu gorfodi i adael ardaloedd maent wedi byw ynddynt gydol eu hoes.

Cwestiwn 4

Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio pryd y gellid gwneud y newidiadau i fandiau Treth Gyngor a chyfraddau treth gyngor. Unwaith eto, rydym am ofyn am eich awydd i weld diwygio:

Ydych chi'n credu y dylem wneud newidiadau ar sail:

- amserlen gyflymaf: diwygio ar raddfa fach, gymedrol neu ehangach erbyn 1 Ebrill 2025
- **Diwygio arafach: diwygio ar raddfa fach, cymedrol neu ehangach gan ddechrau yn 2028 ✓**
- Diwygio fesul cam: diwygio ar raddfa fach neu gymedrol 2025, gan symud at ddiwygio ehangachach yn nhymor y Senedd nesaf
- arall (manylwch)

Sylwadau:

Nid ydym yn credu fod diwygiad o fewn amserlen Ebrill 2025 yn realistig o ystyried y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr gan fod profiadau'r awdurdod yn awgrymu nad oes gan yr Asiantaeth y capasiti angenrheidiol i ymdopi â'r gwaith manwl sydd ei angen a'r

apeliadau sylweddol fydd yn cael eu cyflwyno. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn dryloyw am y drefn apelio a rhoi mwy o amlygrwydd i'r drefn. Ein dealltwriaeth yw y byddai apêl trethdalwr yn gyfystyr ag apelio am y dreth ar lefel y sir, nid am eiddo unigol.

Fel nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 3, credwn fod Dulliau 1 a 2 yn fwy annheg ar ardaloedd gwledig na Dull 3 felly os am ddiwygio, dylid anelu at hwnnw'n syth a peidio cyflwyno cyfnod trosiannol (h.y. Dull 1 neu 2 i ddechrau) gan na fyddai hynny yn rhoi unrhyw gymorth.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai fod terfyn amser cyffredinol ar Eithriad F i annog y rhai sy'n gyfrifol i beidio â gadael eiddo yn wag ac wedi'i eithrio rhag y Dreth Gyngor am gyfnod amhenodol?

Rhoddir eithriad Dosbarth F ar hyn o bryd ar gyfer eiddo nad yw wedi cael ei feddiannu ers marwolaeth cyn-breswylydd os mai'r unig berson sy'n atebol am dalu'r Dreth Gyngor fyddai cynrychiolydd personol yr ymadawedig, ac nad oes unrhyw brofiant na llythyrau gweinyddu wedi'u rhoi.

Ydw

Cwestiwn 6

Beth sy'n gyfnod rhesymol i gael profiant neu lythyrau gweinyddu yn eich barn chi?

- 2 flynedd
- **3 blynedd ✓**
- 4 blynedd
- arall (manylwch)

Sylwadau:

Mae rhai achosion anodd, sensitif yn dilyn marwolaeth unigolyn yn golygu nad oes modd ymdrin â profiant o fewn amser arferol, ac yn gyffredinol ni ellir gweld rheswm dros oedi profiant yn fwriadol. Fodd bynnag, mae gennym bryder am eiddo yn cael ei adael yn wag ag sawl blwyddyn, ac er nad yw hyn yn cael ei wneud o reidrwydd er mwyn osgoi'r dreth, mae yn parhau i greu problemau cymdeithasol. Rydym felly o'r farn fod angen gosod terfyn, ac fod 3 blynedd yn un rhesymol.

Cwestiwn 7

Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer teitl newydd:

- Opsiwn A: amhariad ymenyddol arwyddocaol
- Opsiwn B: cyflwr ymenyddol arwyddocaol

Pa deitl y dylid ei ddefnyddio yn lle 'amhariad meddyliol difrifol' yn eich barn chi?

Roeddem yn defnyddio'r termau "Anawsterau Dysgu Difrifol neu Anhwylderau lechyd Meddwl" am gyfnod ar ddogfennau'r Cyngor cyn i Lywodraeth Cymru fynnu fod ffurflen safonol yn cael ei ddefnyddio gyda'r geiriad 'amhariad meddyliol difrifol'. Dau ddewis sydd wedi cael ei gynnig, sef Opsiwn A: amhariad ymenyddol arwyddocaol neu Opsiwn B: cyflwr ymenyddol arwyddocaol.

O'r ddau yma, byddem yn ffafrio Opsiwn B.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir i ddisgrifio person sydd ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol?

Dyma'r diffiniad: "Cyflwr neu newid meddyliol arwyddocaol (a pharhaol) sy'n effeithio ar allu'r ymennydd i weithredu."

- **Ydw** ✓
- Nac ydw
- unrhyw farn arall (manylwch)

Sylwadau:

Credwn fod y mater yn un dyrys ac un anodd ei ddiffinio, a nid yw'n un o reidrwydd y bydd arbenigwyr yn y maes cyllid llywodraeth leol yn y sefyllfa orau i'w ateb

Cwestiwn 9

Oes gennych chi unrhyw farn ar y meini prawf i berson sydd ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol fod yn gymwys i gael ei eithrio neu ei ddiystyru?

Y meini prawf cymhwyso presennol yw bod gan berson hawl i fudd-dal perthnasol ac ardystiad meddygol gan ymarferydd cofrestredig.

- Opsiwn A: dileu'r gofyniad bod rhaid i berson fod â hawl i fudd-dal perthnasol er mwyn bod yn gymwys i gael ei eithrio neu ei ddiystyru, ond cadw'r angen am ardystiad meddygol.
- **Opsiwn B: pan fydd person yn gallu rhoi prawf o ddiagnosis clinigol, gallai'r gofyniad bod person yn cael budd-dal perthnasol gael ei ddileu yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol.** ✓
- Arall (manylwch)

Sylwadau:

Yn anffodus mae unrhyw newid fel hyn o bosib am fod yn destun camdriniaeth. Nid ydym yn credu ei fod yn deg disgwyl i swyddogion trethiant lleol ddefnyddio eu disgrisiwn mewn maes mor ddyrys â hyn, a dylid cael ardystiad meddygol fel isafswm.

Mae profiad swyddogion trethiant yn dangos fod y gofyn am dystiolaeth o fudd-dal perthnasol yn un pwysig. Yn ymarferol, yn dilyn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, fod rhai trethdalwyr neu eu cynrychiolwyr yn cysylltu hefo'r Cyngor i ymholi am yr eithriad yma ond nad ydynt yn hawlio'r budd-dal – er gallent fod yn gymwys. Mae hwn felly yn ffordd i alluogi swyddogion y Cyngor i gyfeirio trethdalwyr at y budd-dal perthnasol.

Cwestiwn 10

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Mae perygl y gallai cynnydd sylweddol i filiau Treth Cyngor mewn ardaloedd gwledig oherwydd cynnydd mewn prisiau tai (sydd yn aml yn ganlyniad i ardal fod yn ddeniadol fel lleoliadau ail gartrefi a bythynnod gwyliau a nid fel canlyniad i unrhyw weithred gan y trethdalwr unigol) gael effaith negyddol ar yr ardaloedd hyn. Rydym yn bryderus bydd nifer Gymry Cymraeg Gwynedd gorfod gwerthu eu heiddo gan na allent dalu'r dreth uwch gan mai isel yw eu hincwm er gwaethaf cynnydd yn ngwerth eu hased.

Cwestiwn 11

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu addasu'r cynnig polisi er mwyn cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wrth gynnal ail-brisiad, fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ar Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr i beidio trin ardaloedd gwledig fel rhai "cyfoethog" gan nad fod incwm yn isel yn yr ardaloedd hyn.

Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Dylid ystyried cynnig eithriad neu ddisgownt ar gyfer eiddo sydd wedi ei addasu at bwrpasau person anabl, yn hytrach na'r drefn bresennol o ostwng band treth. Mae hyn gan fod nifer o addasiadau erbyn hyn yn rhai cyffredin i nifer o drethdalwyr, boed nhw anabl neu beidio (e.e. cawod "cerdded-i-mewn"). Credwn fod angen i'r gostyngiad yma fod yn gysylltiedig â'r person, nid yr eiddo.